

# Y Grwsmwnt Am Byth

Adroddiad Ymgysylltu  
Gorffennaf 2025



## Cynnwys

<b>Cyflwyniad</b>	<b>2</b>
<b>Golwg Cyffredinol ar yr Achlysur</b>	<b>2</b>
<b>Crynodeb Gweithredol</b>	<b>5</b>
Problemau a Heriau Pwysig a Glustnodwyd	<b>5</b>
Cyfleoedd a Syniadau ar gyfer Gweithredu	<b>6</b>
Camau nesaf	<b>7</b>
<b>Canfyddiadau Pwysig</b>	
Agweddau at newid yn yr hinsawdd ac ymddygiad cynaliadwy	<b>8</b>
Asedau cymunedol presennol a grybwyllwyd	<b>8</b>
Heriau cymunedol a datrysiadau posibl yn ôl thema	<b>11</b>
Sut hoffai pobl fod â rhan yn y prosiect yn y dyfodol	<b>15</b>
<b>Atodiadau</b>	
Atodiad 1: Crynodeb canfyddiadau yn ôl thema	<b>16</b>
Atodiad 2: Darllen ychwanegol - gwybodaeth am wasanaethau a chymorth a rannwyd yn yr achlysur	<b>20</b>
Atodiad 3: Syniadau prosiect a rannwyd yn yr achlysur yn ôl thema	<b>23</b>
Atodiad 4: Dadansoddiad cyflawn o holl gwestiynau ac ymatebion achlysur y Grysmwnt am Byth	<b>29</b>

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau "Y Grysmwnt am Byth - Lluio Yfory â'n Gilydd" mewn achlysur ymgysylltu galw heibio, dau ddiwrnod a gynhaliwyd yng nghorff Eglwys Niclas Sant yn y Grysmwnt ar y 4<sup>ydd</sup> a'r 5<sup>ed</sup> o Ebrill 2025.

Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn gan Raglen Cymunedau YnNi Seren Wae fel rhan o'i gynnig cymorth yn y Grysmwnt.

## Golwg Cyffredinol ar yr Achlysur


Cynlluniwyd "Y Grysmwnt Am Byth" yn lle i rannu gwybodaeth, hel barn ac annog diddordeb ym mhroblemau lleol ac ymatebion posibl o du'r gymuned: pethau a wnaent y Grysmwnt yn lle iachach, cryfach ac, yn bwysig, mwy cynaliadwy i fyw ynddo. Canolbwyntiodd yr achlysur ar 6 maes allweddol: arbed ynni, cynhyrchu ynni cymunedol, cludiant a theithio llesol, bwyd a thyfu, lleihau gwastraff a defnydd tir a natur.

Bu'r achlysur yn gymysgedd o wybodaeth am brosiectau, gwasanaethau a chymorth sy'n bodoli eisoes, ynghyd â chwestiynau i hel barn pobl am broblemau lleol a chyfleodd i fynd i'r afael â hwy. Bu i sawl grŵp lleol hyrwyddo eu gweithgareddau. Darparodd Grosmont Events luniaeth ysgafn, a chynhaliodd Carli Porter weithgaredd crefft gan ddefnyddio blodau i sillafu "Cymuned y Grysmwnt."

Canolbwynt yr achlysur oedd 25 cwestiwn a ddangoswyd ar fyrddau arddangos a phennau byrddau i bobl ychwanegu eu barnau a'u hymatebion.

Bu i gyfanswm o 51 o bobl rannu eu barnau. Mae hynny tua 9% o'r boblogaeth leol, felly ni all yr adroddiad hwn ond darparu asesiad mynegol o farn y gymuned gyfan.





# Crynodeb gweithredol

Darparodd achlysur Y Grysmwnt am Byth olwg gwerthfawr ar agweddau, asedau, heriau a dyheadau'r gymuned parthed bywyd yn y pentref a chynaliadwyedd. Ar y cyfan, cadarnhaodd yr achlysur fod preswylwyr y Grysmwnt a ddaethant draw eisoes yn ymddwyn mewn moddau cynaliadwy, yn bennaf fel aelwydydd ond fel grwpiau, hefyd. Dangosodd fod gan y gymuned amgyffrediad da am broblemau lleol ac amrywiaeth eang o syniadau ynghylch sut ddylid mynd i'r afael â nhw.

## Problemau a Heriau Pwysig a Glustnodwyd

### 1. Cost Ynni, Rhwystrau Rhag Ôl-osod, a Chyfyngiadau Polisi.

- Gwaethygu costau ynni mawrion gan dai ac adeiladau cymunedol hen ac aneffeithlon, weithiau
- Dibyniaeth fawr ar wresogi ag olew a chyfyngiadau adeilad rhestredig yn cymhlethu ymdrechion i wella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi.
- Costau ôl-osod mawrion dechreuol a diffyg gwybodaeth ddibynadwy ar atebion yn llesteirio gweithredu, yn enwedig yng nghyd-destun cadwraeth.

### 2. Diffyg Cludiant Dewisiadau Cludiant Lleol

- Diffyg cludiant cyhoeddus neu gymunedol oedd y prif bryder cymunedol unigol. Mynediad cyfyngedig at fysus (dwy filltir i'w gerdded) yn effeithio ar oedolion hŷn a phobl ag anableddau'n enwedig.
- Cyflwr gwael ffyrdd a goryrru'n bryderon ychwanegol.

### 3. Mynediad Cyfyngedig at Fwyd Ffres a Man Tyfu

- Er bod tyfu bwyd yn weithgaredd poblogaidd, mae bod y man tyfu cymunedol ar ymyl y pentref yn ei wneud yn anhygyrch i rai, ac nid yw cynnyrch ffres ar gael yn rhwydd yn yr ardal.

### 4. Gwastraff a Rhannu Adnoddau

- Er bod mentrau ailgylchu ac aildddefnyddio'n boblogaidd ac ar gynydd, mae preswylwyr yn pryderu ynghylch treuliant gwastraffus gan gynnwys prynu pethau nas defnyddir ond yn anaml.

## 5. Cynaliadwyedd Asedau Cymunedol

- Mynegwyd pryderon ynghylch dyfodol siop y pentref a diffyg cyfleusterau ar gyfer plant, gan gynnwys manau chwarae.

## Cyfleoedd a Syniadau ar gyfer Gweithredu

### 1. Ynni

- Ymchwilio i brosiectau ynni cymunedol fel dŵr, haul ar adeiladau amaethyddol, a systemau treuliant anerobig.
- Datblygu “Cynllun Pentrefol ar gyfer y Gwaharddiad Olew” i gydlynu cymorth ôl-osod, gweithio ag awdurdodau lleol, rhannu gwybodaeth a hyrwyddo cyd-ddysgu.
- Ystyried prynu trydan a gynhyrchwyd yn lleol fel grŵp, a chatau arbed ynni i leihau costau unigol.
- Ymchwilio i ffyrdd ychwanegol o wneud adeiladau cymunedol yn fwy ynni-effeithlon.

### 2. Cludiant a theithio llesol

- Sefydlu'r cynllun pas gwirfoddol a gynlluniwyd, a'i ehangu os dichon hynny.
- Ymchwilio i ddulliau cysylltu'r pentref â chysylltiadau cludiant cyhoeddus pellach.
- Cefnogi mentrau clwb llogi beiciau, man gwefru cyhoeddus ar gyfer cerbydau trydan, a dadlau dros ailagor gorsaf rheilffordd Pontrilas.

### 3. Bwyd, tyfu a defnydd tir

- Sefydlu perllannau a manau tyfu cymunedol newydd yn agosach at ganol y pentref.
- Ehangu mentrau bwyd cymunedol, gan gynnwys cynllun blwch lleol, gwersi coginio, a phrydau bwyd cymunedol.
- Ymchwilio i gyfleoedd i gynyddu mynediad at fwyd ffres a gynhyrchwyd yn lleol.

### 4. Gwastraff a Rhannu Adnoddau

- Ehangu gweithgareddau cyfnewid a chaffis trwsio wedi'u trefnu, ac ystyried gweithgareddau uwchgylchu.
- Sefydlu llyfrgell pethau (rhithiol) a chynllun o law i law cymunedol i alluogi rhannu a lleihau defnyddio adnoddau.
- Hyrwyddo compostion cymunedol.

## 5. Gwelliannau cymunedol eraill

- Ailedrych ar safleoedd dichonol man chwarae cymunedol ac ymchwilio i a ellid ei gymhathu ag anghenion ehangach y gymuned, megis ei leoli yn nesaf at fan tyfu.
- Helpu cynaliadwyedd siop y pentref trwy gynyddu defnydd lleol a gwasanaethau cymunedol cydategol.

## Camau Nesaf

Dengys y canfyddiadau y bu diddordeb mewn gweithredu ynghylch amryw fentrau dichonol yn y gymuned. Yr oedd yr ewyllys, y syniadau a'r sylfeini oll yno: y cam nesaf yw cynnull a chyflawni. Argymhellir y gweithredu canlynol:

- Adolygu canfyddiadau'r adroddiad a blaenoriaethu prosiectau fel cymuned.
- Sefydlu grŵp llywio a/neu grwpiau brosiect thematig cymunedol er mwyn datblygu prosiectau, gan weithio ag unigolion a grwpiau sydd â diddordeb, yn ogystal â rhanddeiliaid rhanbarthol ehangach lle bo'n addas.
- Sicrhau arian a chymorth technegol ar gyfer cyngor ôl-osod, astudiaethau dichonoldeb cynhyrchu ynni, a chynllunio cludiant.
- Sicrhau bod mentrau newydd yn cydweddu â gweithgareddau neu gynlluniau cymunedol presennol, ac yn eu cydategu.
- Gweithio â chyrrff awdurdodau lleol, cynllunio ac eraill i symud rhwystrau rheoliadol ac ariannol, yn enwedig ynglŷn ag ôl-osod ymwybodol o dreftadaeth, a chysylltedd cludiant.

## Canfyddiadau pwysig

Mae'r canlynol yn crynhoi canfyddiadau pwysig sy'n deillio o ymatebion y gymuned yn yr achlysur.

Am grynodedb o'r holl ymatebion wedi'u trefnu'n dablau yn ôl thema, gweler Atodiad 1: Crynodeb canfyddiadau yn ôl thema.

Am gofnod o'r holl gwestiynau ac ymatebion, gweler Atodiad 4: *Manylion llawn holl gwestiynau ac ymatebion achlysur Y Grysmwnt am Byth.*

### 1. Agweddau at newid yn yr hinsawdd ac ymddygiad cynaliadwy

Amlygodd yr achlysur fod y rhai ddaeth draw yn dra phryderus ynghylch newid yn yr hinsawdd ac â diddordeb mewn gwneud rhagor i fynd i'r afael ag ef. Mae llawer yn ymddwyn mewn modd cynaliadwy eisoes, yn enwedig fel unigolion/aelwydydd.

Yn fwyaf nodedig, pan ofynnwyd "Pa mor bryderus ynghylch newid yn yr hinsawdd ydych chi?", yr oedd yr holl ymatebion ar ddwy raddfa uchaf pryder (wedi'u trefnu o 1 i 10).

Dyweddodd pobl eu bod eisoes yn gwneud yr hyn sy'n llesol i'r amgylchedd. Roedd a wnelo'r ymatebion mwyaf cyffredin ag ailgylchu, codi sbwriel, prynu'n lleol a thyfu eu bwyd eu hunain, gartref ac yn gymunedol, fel rhan o Grosmont Grow.

Yr oedd yr ymddygiad arall y cafwyd gwybod amdano'n cynnwys:

- Technoleg adnewyddadwy gartref
- Defnyddio casgen ddŵr a mesurydd dŵr
- Cerdded
- Bod yn berchen ar gerbydau trydanol
- Compostio
- Helpu natur (blychau nythu/peillio blodau/osgoi plateiddiaid)

Mae'n werth nodi bod pobl wedi cynnwys "cerdded" yn eu rhestr ymddygiadau cynaliadwy. Roedd a wnelo hyn yn bennaf â mynd o gwmpas y pentref neu o ran hamdden, ac fe'i cadarnhawyd gan y ffaith fod 88% o'r rhai ddaeth draw i'r achlysur wedi cerdded yno.

### 2. Asedau cymunedol presennol a grybwyllwyd

Mae'r Grysmwnt yn bentref prydferth, a chrybwyllodd y rhai ddaeth draw amryw asedau cymunedol sy'n bodoli yno eisoes. Dywedasant fod y Grysmwnt wedi'i fendithio ag ysbryd cymunedol gwych, ac ag amryw grwpiau, prosiectau a gwasanaethau sydd eisoes yn diwallu anghenion neilltuol. Yr oedd yno

breswylwyr â diddordebau a medrau y mae dichon iddynt helpu bwrw ymlaen â phrosiectau newydd. Dylai unrhyw brosiectau newydd amcanu defnyddio'r asedau hyn ac ystyried ac ategu unrhyw weithgareddau presennol neu sydd ar y gweill.

Crybwyllwyd yr asedau cymunedol perthnasol canlynol yn yr achlysur:

## 2.1 Gwasanaethau cymunedol

Mae Cyngor Cymuned y Grysmwnt a Grosmont Futures yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu'r prosiect **Canolfan Gymunedol**. Mae i hyn sawl canlyniad sy'n gorgyffwrdd â chanfyddiadau'r adroddiad hwn ac amcanion Cymunedau YnNi. Bydd yn gwella effeithlonrwydd ynni neuadd y dref, gan gynnwys inswleiddiad ychwanegol, gwydro eilaidd a phaneli ynni haul. Mae amrywiaeth o weithgareddau i'w cynnal yn y ganolfan, pan fydd ar agor, wedi'u gwreiddio mewn cynaliadwyedd. Maent yn cynnwys achlysuron cyfnewid, clybiau cinio a chaffis trwsio, heb sôn am fudd cynnal achlysuron a gwasanaethau yn agosaf adref, sy'n dileu angen teithio.

Nodwyd bod **Ysgol Croes Onnen** yn eco-ysgol platinwm, a bod gan y plant syniadau cynaliadwyedd eisoes.

Crybwyllodd bobl y **dafarn** ffyniannus a **siop** y pentref hefyd, a werthfawrogi o hyd.

## 2.2 Ynni

Cyfarfuom â phreswilydd lleol a oedd yn bensaer ym maes tai a chynaliadwyedd. Yr oedd wedi gwneud gwaith ôl-osod helaeth yn ei gartref ei hun, a chynigodd rannu'r profiad hwn â phreswylwyr sy'n ystyried gwneud rhywbeth tebyg.

Cyfarfuom â phobl ag arbenigedd ym mholisi ynni a threuliant anerobig, hefyd.

## 2.3 Cludiant a theithio llesol

Arfaethir cynllun pas gwirfoddol fel rhan o'r prosiect Canolfan Gymunedol, a fydd yn helpu pobl heb gludiant i ddod i weithgareddau'r ganolfan.

Dywedwyd fod cerdded o gwmpas eisoes yn arfer gan bobl, a bod y prosiect cynnal llwybrau wedi helpu annog cerdded.

Dywedwyd fod y gwasanaeth bws ysgol yn dda iawn.

## 2.4 Bwyd, tyfu a defnydd tir

Cafwyd gwybod am y mentrau presennol neu arfaethedig:

- Siop bentref
- Grŵp tyfu cymunedol Grosmont Grow
- Perllan yn "Wild Acre"
- Cynllun blwch llysiau ym Mhontrilas


- Clwb cinio fel rhan o brosiect canolfan gymunedol

## 2.5 Gwastraff a Rhannu Adnoddau

Fel y crybwyllwyd, mae ailgylchu a chodi sbwriel yn arferion cyffredin yn y pentref.

Yn ychwanegol at y gweithgareddau perthnasol a fwriedir fel rhan o'r prosiect canolfan gymunedol, cafwyd gwybod am y mentrau presennol canlynol:

- Cynllun ailddefnyddio gwisg ysgol Croes Onnen
- Ffeirio llyfrau yn yr ysgol
- Rhannu planhigion
- Ffeirio dillad wedi'i drefnu gan Grosmont Events
- Prynu'n lleol ym marchnad y Grysmwnt
- Bagiau nwyddau wedi'i gwneud o ddefnydd wedi'i ailgylchu yn y pentref a'u rhannu ym marchnad y Grysmwnt



Gwastraff a'r hyn a brynwn: poster a rannwyd yn yr achlysur yn dangos hierarchaeth economi gylchol.

### 3. Heriau cymunedol a datrysiadau posibl yn ôl thema


#### 3.1 Blaenoriaethau cymunedol

Gofynnwyd i'r rhai ddaeth draw ddewis eu 3 brif flaenoriaeth o restr o nodau cymunedol dichonol (gan adlewyrchu themâu'r achlysur). Yn nhrefn eu blaenoriaeth gymunedol, y rhain oedd:

- Gwella cludiant a chyfleoedd teithio llesol
- Ymchwilio i ddulliau cynhyrchu ynni er budd cymunedol
- Lleihau gwastraff a rhannu rhagor
- Ynni: canfod dulliau cydweithio i arbed arian a chadw'n dwym
- Cynyddu cyfleoedd bwyd cymunedol a thyfu

Mae'r siart dafelloog isod yn dangos i ba raddau y gwelwyd pob un nod yn flaenoriaeth. Derbyniodd y prif nod, gwella cludiant a theithio llesol, ychydig o dan draean o'r holl bleidleisiau, yna ymchwilio i ddulliau cynhyrchu ynni er budd cymunedol a lleihau gwastraff a rhannu rhagor, a thua un rhan o bump yr un. Yr oedd cryn gefnogaeth ar gyfer yr holl nodau cymunedol a gyflwynwyd, fodd bynnag.

#### Blaenoriaethau cymunedol



Dangosir isod pob problem a godwyd ac awgrymiadau ynghylch dulliau posibl mynd i'r afael â nhw gan y gymuned yn yr achlysur, wedi'u trefnu yn ôl thema.

#### 3.2 Arbed ynni a chadw'n dwym

Tynnodd y rhai ddaeth draw sylw at sawl her ynni, yn arbennig diffyg prif gyflenwad nwy a dibyniaeth fawr ar olew drud ar gyfer twymo (sydd i'w ddiddymu'n raddol o 2035 oherwydd newid polisiau). Roedd

preswylwyr yn wynebu costau ynni mawrion ac roedd rhwystrau sylweddol rhag ôl-osod yn eu cartrefi, yn enwedig oherwydd cyfyngiadau adeiladau hen a/neu rhestredig a statws gadwraeth canol y pentref.

Er mwyn mynd i'r afael â'r problemau hyn, cynigodd y gymuned amryw atebion. Y mwyaf poblogaidd oedd prynu trydan a gynhyrchir yn lleol megis cymuned ar gyfraddau is.


Bu iddynt gynnig, yn ogystal, godi ymwybyddiaeth o gymorthdaliadau a chynlluniau cymorth presennol, a datblygu "cynllun pentrefol ar gyfer y gwaharddiad olew" a weithiai'n agos ag awdurdodau cynllunio i bwysu am fwy o hyblygrwydd ynghylch ôl-osod cartrefi treftadaeth mewn modd goddefol. Gallai hyn gynnwys cyngor ymarferol ynglŷn â'r costau, graddfeydd amharu, ac effeithiolrwydd dewisiadau ôl-osod, hefyd; a gellid ei hwyluso trwy ddysgu gan breswylwyr sydd wedi ôl-osod eu cartrefi'n llwyddiannus.

Teimlid mai'r rhwystr mwyaf rhag ôl-osod, o bell ffordd, oedd y gost ddechreuol a'r diffyg ariannu. Mae cynllun Nyth yn cynnig camau effeithlonrwydd ynni am ddim i'r cymwys. Mae Cartrefi Gwyrdd Cymru'n darparu benthyciadau di-log wedi'u gwarantu gan y Llywodraeth, ac y mae sawl benthyciwr Stryd Fawr yn cynnig benthyciadau di-log ar gyfer gwneud cartrefi'n fwy cynaliadwy, hefyd. Yr oedd cefnogaeth eang ar gyfer syniad gosod camau effeithlonrwydd ynni ar yr un pryd â chymdogion, er mwyn helpu lleihau costau.

Tanlinellwyd gwella effeithlonrwydd ynni'r eglwys a Neuadd y Dref, hefyd, lle bo modd, ac yr oedd cefnogaeth ar gyfer prosiectau cymunedol arloesol fel meinciau gwefru ffonau ag ynni haul a maes chwarae sy'n cynhyrchu ynni.

### 3.3 Ynni cymunedol


Y farn gyfun ynghylch pob math o dechnolegau adnewyddadwy cymunedol



Mynegodd pobl yn y Grysmwnt gefnogaeth gref ar gyfer datblygu mentrau ynni cymunedol lleol, yn enwedig gan nad oes mo'r fath cynlluniau ar hyn o bryd. Yr oedd y prif ddiddordebau'n cynnwys cynyddu gwydnwch ynni, lleihau costau ynni a chynhyrchu enillion ar gyfer buddsoddi cymunedol.

Fel a welir yn y siart dafellog uchod, roedd preswylwyr yn hynod gefnogol i bob math ar dechnoleg adnewyddadwy gymunedol. Bu'r ymatebion yn neilltuol o frwd o blaid ynni dŵr, panelau ynni haul ar adeiladau, a thyrbinau gwynt sengl. Yr oedd atebion penodol yn cynnwys ymchwilio i ddichonoldeb prosiect ynni dŵr ar afon Mynwy neu Nant Tresenni, ac ymchwilio i ddichonoldeb gosod panelau ynni haul ar adeiladau amaethyddol. Pwysleisiodd un yn yr achlysur bwysigrwydd cwmpasu'r dewisiadau er mwyn canfod yr un neu'r rhai gorau ar gyfer y pentref.

Yn ychwanegol, cynigodd rhai aelodau o'r gymuned sefydlu treuliwr anerobig modiwlwr bach. Awgrymodd arbenigwr lleol na fyddai hwn yn y pentref, ond yn un neu ragor o orsafoedd trosglwyddo gwastraff rhanbarthol yn hytrach, a gallai leihau costau cludo gwastraff bwyd, cynhyrchu ynni lleol i docio biliau, cynhyrchu gwrtaith organig ar gyfer ffermydd lleol, a chyflenwi bio-nwy ar gyfer cludiant cymunedol, hyd yn oed. Mae hyn yn amlygu awydd ar gyfer atebion ynni buddiol, ymarferol, lleol.



Poster a rannwyd yn yr achlysur yn dangos nodweddion gwahanol fathau o ynni cymunedol.

### **3.4 Cludiant a theithio llesol**

Yn yr achlysur, dywedodd y gymuned mai diffyg cludiant cyhoeddus a chymunedol yw eu prif bryder, gan effeithio'n neilltuol ar breswylwyr hŷn, pobl ag anabledau, a'r rhai heb gerbydau preifat, sy'n wynebu cerdded dwy filltir i'r arosfa bws agosaf. Y flaenoriaeth, felly, fyddai canfod ford cysylltu'r pentref â dewisiadau teithio pellach.

Yr oedd syniad sefydlu cynllun pas gwirfoddol yn boblogaidd tu hwnt. Arfaethir hyn eisoes fel rhan o'r prosiect canolfan gymunedol i ddenu pobl i weithgareddau yn Neuadd y Dref, a gallai fod yn werth ymchwilio i a ellid ehangu hwn i ddiwallu angen ehangach. Mae Canolfan Bridges, Trefynwy, yn cynnal cynllun car cymunedol tebyg hefyd, sydd ar gael i breswylwyr y Grysmwnt am dâl.

Yr oedd llawer o gefnogaeth boblogaidd i gyflwyno clwb neu wasanaeth llogi beiciau trydan, a gosod man gwefru cerbydau trydan. Felly hefyd ailagor gorsaf rheilffordd Pontrilas er mwyn gwella cysylltedd rhanbarthol. Mae hyn yn rhywbeth y bu Cyngor Swydd Henffordd yn ei gefnogi'n weithredol ers sawl blwyddyn, a deellir eu bod wedi datblygu achos busnes amlinellol strategol tros adeiladu gorsaf newydd ym Mhontrilas o'r enw Golden Valley.

Mae problemau ychwanegol wedi cynnwys cyflwr gwael ffyrdd lleol a phroblemau â cherbydau'n goryrru.

### **3.5 Bwyd, tyfu a defnydd tir**

Clustnododd y gymuned sawl her a chyfle parthed bwyd lleol a thyfu.

Yr oedd cefnogaeth gyffredinol ar gyfer creu perllan gymunedol. Awgrymodd un yn yr achlysur adfer y berllan yn Wild Acre. Awgrymodd eraill helpu tiffeddianwyr â phlannu coed.

Problem o bwys yw diffyg argaeledd ffrwythau a llysiau ffres yn lleol. Llinierir hyn i raddau gan bobl yn tyfu eu cynnyrch eu hunain gartref, neu fel rhan o grŵp Grosmont Grow, er y byddai hyn yn fwy hygyrch pe bai'n agosach at ganol y pentref. Yr oedd y lleoliadau amgen ar gyfer mannau tyfu a awgrymwyd yn cynnwys y tu cefn i Tollstone Way/Castle Aspect, yng ngodre Poorscript Lane, neu hyd yn oed gofod bach rhanedig ar y boncen gyferbyn â'r dafarn.

Yr oedd syniadau eraill ar gyfer cynyddu mynediad at fwyd yn cynnwys cyflwyno cynllun blwch llysiau neu fwyd (er bod un ym Mhontrilas eisoes); ehangu'r farchnad leol i gynnwys cynnyrch ffres, a threfnu sesiynau coginio cymunedol gan gynnwys coginio swmp, gwersi coginio i blant a phrydau twym cymunedol. Mae'r fath fentrau coginio un ai ar y gweill neu gellid eu cynnwys fel rhan o'r prosiect canolfan gymunedol.

### **3.6 Gwastraff a Rhannu Adnoddau**

Mynegodd y gymuned bryderon ynghylch cynnydd sbwriel a'r gwastraff adnoddau cysylltiedig â pherchnogi pethau nas defnyddir ond yn achlysurol. Er mwyn mynd i'r afael â'r problemau hyn a rhai cysylltiedig, awgrymwyd amryw syniadau prosiect ag apêl eang. Yr oedd y mwyaf poblogaidd yn cynnwys caffis trwsio (wedi'u cynllunio'n rhan o'r prosiect canolfan gymunedol); cynlluniau o law i law, a chreu "llyfrgell pethau" neu rywbeth rhithiol, cyfwerth i alluogi pobl y pentref i rannu eiddo (fel cyfarpar creu a thrwsio) â chydbreswylwyr. Mae'n bosibl y gellid cyfuno hyn â chynllun o law i law cymunedol. Bu

croeso i fentrau eraill fel gweithdai uwchgylchu ac achlysuron cyfnewid lleol fel ffeiriau sborion. Yr oedd awgrymiadau ychwanegol yn cynnwys sefydlu storfa hygyrch iawn ar gyfer offer sy'n cael ei rannu a chyfarpar codi sbwriel, yn ogystal â hyrwyddo compostio cymunedol. Mae'r syniadau hyn yn amcanu lleihau gwastraff, annog ailddefnyddio, a hyrwyddo ysbryd cymunedol.

### **3.7 Problemau a syniadau eraill a godwyd**

Dywedwyd fod nifer gynyddol o blant yn y pentref, ac angen cynyddol am faes chwarae cymunedol. Mae posibilrwydd maes chwarae bach ar dir y castell wedi'i godi'n flaenorol, ond gwnaeth cyfyngiadau treftadaeth ef yn anymarferol, felly byddai angen clustnodi safle arall, debyg. Awgrymodd un yn yr achlysur y gallai god yn ofod ar gyfer pob oedran. Gallai fod yn werth ystyried a ellid diwallu sawl angen ar unwaith trwy ddwyn ynghyd man chwarae a syniad arall a gynigiwyd, sef man tyfu cymunedol yn yr un lle.

Mae gan bobl feddwl mawr o siop y pentref ond mynegwyd pryderon am ei dyfodol, a gofid wedi cau swyddfa'r post.

## **4. Sut hoffai pobl fod â rhan yn y prosiect yn y dyfodol**

Calonogol oedd bod agos bawb ddaeth draw eisiau cadw mewn cysylltiad â'r prosiect yn rhyw ffordd, gyda thua 80% yn dweud y dymunent ymuno â rhestr derbyn negesau ynglŷn â'r prosiect neu ddod i achlysur adborth i glywed yr hyn oedd gan bobl i'w ddweud. Yr oedd saith o bobl yn awyddus i fod yn rhan o grŵp llywio sy'n gweithredu ynghylch canfyddiadau'r achlysur.

## Atodiadau

Atodiad 1: Crynodeb canfyddiadau yn ôl thema

Atodiad 2: Darllen ychwanegol - gwybodaeth a, wasanaethau a chymorth a rannwyd yn yr achlysur

Atodiad 3: Syniadau prosiect a rannwyd yn yr achlysur yn ôl thema

Atodiad 4: Dadansoddiad cyflawn o holl gwestiynau ac ymatebion achlysur y Grysmwnt am Byth

### Atodiad 1: Crynodeb canfyddiadau yn ôl thema

Thema	Problemau a godwyd	Syniadau a chyfleoedd a gynigwyd	Sylwadau
<b>Arbed ynni</b>	<p>Peidio â bod ar y prif gyflenwad a dibyniaeth ar olew (sy'n ddrud a bydd polisi yn ei ddileu ym mlynnyddoedd i ddod)</p> <p>Sut mae goresgyn cyfyngiadau ar ôl-osod adeiladau rhestredig / ardal gadwraeth mewn modd ymwybodol</p> <p>Pris mawr ynni ar gyfer cartrefi</p> <p>Cost sylweddol ddechreuol gosod camau effeithlonwydd ynni ac wynebu rhwystrau ac ofnau eraill cysylltiedig ag ôl-osod</p>	<p>Helpu'r gymuned leol i gynyddu ôl-osod. "Cynllun pentrefol ar gyfer y gwaharddiad olew!"</p> <p>I gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithio â chynllunio i gael eglurdeb ynghylch polisi ôl-osod ardaloedd cadwraeth / cartrefi rhestredig a phwyso dros gynyddu hyblygrwydd lle bynnag y bo modd</li> <li>Cynyddu gwybodaeth a, gostau/graddfeydd amhariaeth/effeithiolrwydd/gosodwyr y gellir ymddiried ynddynt ac arbenigedd a chynghor diduedd - i gynnwys ymweliadau â chartrefi lle bu ôl-osod llwyddiannus er mwyn rhannu dysg</li> <li>Eglurdeb ynghylch addasrwydd ac effeithiolrwydd technolegau newydd ar gyfer adeiladau hŷn</li> <li>Codi ymwybyddiaeth am gymorthdaliadau presennol a chymorth sydd ar gael a chymhwysedd</li> </ul> <p>Syniadau prosiect eraill a gynigiwyd yn yr achlysur a oedd ag apêl eang (yn nhrefn poblogrwydd):</p>	<p>Angen bod yn ymwybodol o olwg y pentref</p> <p>Deddf Adeiladau Hanesyddol yn gosod cynsail da</p>

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Prynu trydan a gynhyrchwyd yn lleol fel grŵp am bris llai (Ynni Lleol)</li> <li>• Cael a gosod camau effeithlonrwydd ynni fel grŵp er mwyn arbed costau</li> <li>• Meinciau ynni haul i wefrio ffonau</li> <li>• Panelau ynni haul / cae chwarae sy'n cynhyrchu ynni</li> </ul>	Ystyrir hyn yn dda ar gyfer twristiaeth
	Pris mawr ynni ar gyfer adeiladau cymunedol	Ymchwilio i ddewisiadau ôl-osod lle bo'n addas i helpu'r eglwys/ Neuadd y Dref i arbed ynni	Mynegwyd peth farn gref nad yw'r eglwys yn addas ar gyfer ôl-osod
<b>Cynhyrchu ynni</b>	<p>Cynyddu gwydnwch ynni a chynhyrchu enillion ar gyfer buddsoddi cymunedol ar yr un pryd</p> <p>Ymddengys nad oes cynlluniau cymunedol ar hyn o bryd</p>	<p>Cefnogaeth eang ar gyfer pob math o ynni cymunedol heb fawr ddim gwrthwynebiad</p> <p>Yr ynni adnewyddadwy â'r mwyaf o gefnogaeth oedd (yn nhrefn poblogrwydd):</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dŵr</li> <li>• Paneli haul ar adeiladau</li> <li>• Tyrbin gwynt sengl</li> </ul> <p>Awgrymiadau ynghylch cynllun adnewyddadwy lleol ychwanegol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymchwilio i gynllun ynni dŵr ar afon Mynwy neu Nant Tresenni</li> <li>• Paneli haul ar adeiladau amaethyddol</li> <li>• Treuliwr Anerobig - "Pe gosodid TA bach yng ngorsafoedd trosglwyddo gwastraff Llan-ffwyst, Rhaglan a Threfynwy, yna yn hytrach na chrynhoi ein gwastraff bwyd ym mhob un safle (a drosglwyddir, wedyn, mas o'r sir), gellid defnyddio'r ynni i effeithio ar ein biliau ynni'n lleol trwy gyfran o'r enillion. Yn ychwanegol, gellid gwerthu'r cynnyrch terfynol (gwrtait hylif) i amaethwyr lleol Sir Fynwy yn hytrach na defnyddio</li> </ul>	<p>Mae gan felin lifio Pontrilas fwyler bio-mas 4 MW</p> <p>Mae'n bwysig ystyried y dewis gorau ar gyfer y pentref</p> <p>Nant Tresenni: o Barnes Farm, dywedir nad yw byth yn hesb, gyda disgyniad rhagorol, posiblirwydd cynnal tyrbinau olynol</p>

		cemegolion. Dichon defnyddio bio-nwy ar gyfer cludiant cymunedol, hefyd	
<b>Bwyd, tyfu a defnydd tir</b>	<p>Man tyfu cymunedol y tu mas i ganol y pentref felly nid yw'n hygyrch i bawb</p> <p>Fawr ddim ffrwythau a llysiau ffres ar gael</p>	<p>Syniadau prosiect eraill a gynigiwyd yn yr achlysur a oedd ag apêl eang (yn nhrefn poblogrwydd):</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Perllan gymunedol neu blannu coed</li> <li>• Cynyddu argaeledd cynnyrch lleol</li> <li>• Cynllun blwch llysiau neu fwyd</li> <li>• Cyd-goginio fel cymuned (coginio swmp), gan gynnwys gwersi coginio i blant, caffi cymunedol â phryd/sŵp/cawl twym sawl gwaith yr wythnos</li> <li>• Rhandir neu fan tyfu cymunedol newydd</li> </ul> <p>Mannau a awgrymwyd ar gyfer perllan neu fan tyfu cymunedol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y tu cefn i Tollstone Way/ Castle Aspect</li> <li>• Ar y boncen gyferbyn â'r dafarn – gardd llysiau/flodau ar y cyd</li> <li>• Godre Poorscript Lane</li> <li>• “Adfer perllan Wild Acre”</li> </ul>	<p>Y gymuned yn helpu tiffeddianwyr i blannu coeden fel rhan o CFfC</p> <p>Ehangu'r farchnad i gynnwys cynnyrch ffres</p> <p>Mae gan Bontrilas un y mae rhai teuluoedd yn eu defnyddio</p> <p>Cynllunnir llawer o hyn fel rhan o brosiect y ganolfan</p> <p>Gweithio â grŵp Grow</p>
<b>Cludiant a theithio llesol</b>	<p>Diffyg cludiant cymunedol/cyhoeddus oedd y pryder unigol mwyaf a fynegwyd</p> <p>2 filltir o gerdded i'r arhosfa bws agosaf yn enwedig ar gyfer pobl hŷn/rhai heb gludiant/anableddau</p> <p>Cyflwr ffyrdd lleol a goryrru</p>	<p>Syniadau prosiect eraill a gynigiwyd yn yr achlysur a oedd ag apêl eang (yn nhrefn poblogrwydd):</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cludiant cyhoeddus/cymunedol (dolen â chysylltiadau teithio pellach)</li> <li>• Cynllun pas gwirfoddol</li> <li>• Clwb/llogi beiciau trydan</li> <li>• Man gwefru cerbydau trydan</li> <li>• Ailagor gorsaf rheilffordd Pontrilas</li> </ul>	<p>Cynllun rhannu pas canolfan gymunedol ar y gweill eisoes</p> <p>Achos busnes strategol amlinellol ar gyfer gorsaf newydd ym Mhontrilas o'r enw Golden Valley yn cael ei ddatblygu gan Gyngor Swydd Henffordd</p>
<b>Gwastraff a Rhannu Adnoddau</b>	Cynnydd sbwriel	Syniadau prosiect eraill a gynigiwyd yn yr achlysur a oedd ag apêl eang (yn nhrefn poblogrwydd):	

	Perchnogi pethau nas defnyddir ond yn achlysurol a sut ellid rhannu mwy arnynt	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Caffis trwsio</li> <li>• Cynllun o law i law lleol</li> <li>• Llyfrgell pethau/Llyfrgell rithiol o bethau a gwasanaethau/banc offer llunio a thrwsio i'w benthyg</li> <li>• Gweithdai uwchgyrchu</li> <li>• Achlysuron ffeirio/ffeiriau sborion</li> </ul> <p>Syniadau eraill</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Storfa hygyrch ar gyfer offer/codi sbwriel</li> <li>• Compostio cymunedol</li> </ul>	<p>Wedi'i gynllunio fel rhan o brosiect y ganolfan Yn digwydd yn anffurfiol</p> <p>Wedi'i gynllunio fel rhan o brosiect y ganolfan gymunedol</p> <p>Eisoes yn digwydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Clwb crefftau'n gwneud bagiau nwyddau</li> <li>• Rhannu llyfrau yng nghyntedd yr eglwys</li> <li>• Cyfnewidfa gwisg ysgol yn ysgol Croes Onnen</li> <li>• Cyfnewid dillad a phlanhigion</li> <li>• Marchnad chwarterol</li> </ul>
<b>Erail</b>	Nifer gynyddol o blant heb le i chwarae	Angen cae chwarae	Gweithgareddau ieuenctid wedi'u cynnwys ym mhrosiect y ganolfan
